GwE

Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**22 MEDI 2016**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE & Cyfarwyddwr Arweiniol / Cadeirydd Bwrdd Rheoli GwE |
| **Pwnc:** | Cynllun Busnes Rhanbarthol 2016-19 a Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygiad |

**1.0 Pwrpas yr adroddiad**

1.1 Cyflwyno drafft o Gynllun Busnes 2016-19 sy'n ymgorffori'r Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygiad i'r Cyd-bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

2.1 Yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyd-bwyllgor ym mis Mehefin 2016 ar ansawdd y gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir gan Gonsortiwm Gogledd Cymru, mae Cynllun Busnes diwygiedig ar gyfer 2016-19 wedi'i ddrafftio i ymgorffori'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad.

2.2 Mae Cynllun Busnes Rhanbarthol 2016-19 (a'r cynllun ôl-arolygiad) yn nodi gweledigaeth 3 blynedd, blaenoriaethau, gweithredoedd, allgynnyrch a meini prawf llwyddiant ar draws y rhanbarth.

**3.0 Materion i'w hystyried**

3.1 Mae'r cynllun busnes diwygiedig wedi'i greu mewn ymateb i arolygiad Estyn ym mis Ebrill 2016.

3.2 Mae'r cynllun gweithredu ôl-arolygiad wedi'i ymgorffori yn y cynllun busnes er mwyn sicrhau y cydlynir y ddau gynllun yn effeithiol.

3.3 Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE (atodiad 9.2) a Fframwaith Atebolrwydd Rhanbarthol GwE (atodiad 9.3) wedi'u datblygu i sicrhau eglurder mewn perthynas â rolau a chyfrifoldebau o fewn y consortiwm, yn ogystal â sicrhau bod y cynlluniau'n cynnwys meini prawf llwyddiant clir sy'n arwain at fonitro effeithiol a systematig.

3.4 Mae Cynllun Busnes Rhanbarthol 2016-19 (a'r cynllun ôl-arolygiad) yn nodi'r weledigaeth 3 blynedd, blaenoriaethau, gweithredoedd, allgynnyrch a meini prawf llwyddiant ar draws y rhanbarth. Y cynllun hwn yw cynllun Lefel 1 o fewn y Fframwaith Cynllunio Busnes newydd, a'r Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli sydd â chyfrifoldeb am gyflawni'r cynllun fel swyddogion atebol. Y Cyd-bwyllgor sydd yn atebol yn y pen draw am gyflwyno'r cynllun.

3.5 Mae cynlluniau blynyddol lefel 2 a 3 yn dod o dan gynllun Lefel 1 ac yn cynnig manylion pellach mewn perthynas â'r camau gweithredu i'w cymryd, a'r allgynnyrch a'r meini prawf llwyddiant i'w cyflawni. Mae'r fframwaith cynllunio busnes tair lefel a ddatblygwyd yn sicrhau atebolrwydd am gyflwyno ac yn cynnig strwythur ar gyfer monitro cynnydd yn effeithiol.

3.6 Adroddir ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes mewn cyfarfodydd Cyd-bwyllgor i ddod.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Busnes ar gyfer 2016-19 a'r Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygiad).

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith o ran cydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori a Wnaed**

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli a Bwrdd Ymgynghorol GwE yn ystod datblygu'r ddogfen hon.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Cynllun Busnes 2016-19 & Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygiad (Drafft)

9.2 Fframwaith Cynllunio Busnes

9.3 Fframwaith Atebolrwydd Rhanbarthol

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o ochr priodolodeb

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Deallaf fod unrhyw ymhlygiadau ariannol o'r Cynllun Busnes i'w ariannu o adnoddau presennol a/neu grantiau penodol. Derbyniodd y Cydbwyllgor her i ddarganfod arbedion effeithlonrwydd parhaol gwerth £131,180 yn 2016/17, a gallasai'r awdurdodau lleol sy'n cyd-ariannu'r gwasanaethau ofyn i GwE adnabod arbedion effeithlonrwydd pellach yn oes y Cynllun Busnes yma, sef 2017/18 a 2018/19. Dylai unrhyw effaith ar y cynllun busnes gael ei amlinellu'n amserol.